**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron a gynhaliwyd ar nos Lun, Ionawr 8fed, 2024 am 7.30 y.h. yng Nghanolfan Deunant.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Dewi Evans (yn gweithredu fel Clerc dros dro), Mari Evans, Wil Evans, Dafydd Myrddin, Emlyn Jones, Jaci Jones, Nesta Roberts, Dafydd Williams, a'r Cynghorydd Gareth Williams (Y Cyngor Sir).

**Yn y Gadair:** Y Cynghorydd Robert Williams.

**1) Ymddiheuriadau a Datgan Diddordeb:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Gwenllian Haf a Wenda Williams. Datganodd y Cynghorydd Jaci Jones ddiddordeb yn eitem 6.

**2) Cyhoeddiadau'r cadeirydd:** Nid oedd cyhoeddiadau.

**3) Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Ragfyr 4ydd, 2023**
Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**4) Materion yn codi o'r cofnodion**

*i. Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau*

a) Symudwyd y bin sbwriel o flaen yr hysbysfwrdd ger Gegin Fawr i fan arall gan Gyngor Gwynedd.

b) Wedi gohebiaeth gydag Uwch Beiriannydd Traffig Cyngor Gwynedd ynghylch diffyg arwyddion i arafu cerbydau ym mhentref y Rhiw, bu'r Cynghorydd Emlyn Jones yn egluro'r sefyllfa wrtho, ond ni chafodd yr argraff y câi unrhyw beth ei wneud yn fuan, a gofynnwyd i'r Cynghorydd Gareth Williams ohebu ymhellach â'r Cyngor Sir.

c) Diogelwyd y safle lle yr oedd pant wedi ffurfio ar ochr y ffordd ger Glangors (rhwng Meillionydd Bach a Felin Uchaf) ac mae gwaith atgyweirio'r safle wedi ei ychwanegu at restr waith Cyngor Gwynedd, gydag addewid y caiff sylw pan fydd adnoddau ar gael.

ch) Mewn ymateb i ymholiad y Cyngor ynghylch lledu'r darn o'r ffordd fawr rhwng Bodwrdda a Phen-bryn, derbyniwyd ateb nad oes cyllid i ymgymryd â'r math yma o gynllun ar hyn o bryd, ond bod y safle wedi ei ychwanegu i'r mannau i'w harolygu, ac y hysbysir y Cyngor o unrhyw argymhellion, os bydd rhai.

d) Mewn ateb i ohebiaeth fod dŵr yn casglu ar y ffordd mewn dau le rhwng allt Methlem â thŷ Bryn Eiddon (ger y fynedfa i Borthor), ac yn beryglus pan fydd yn rhewi, hysbyswyd ni fod y gwaith ffosio wedi ei ychwanegu i'r rhestr waith ac y caiff sylw pan fydd adnoddau ar gael.

dd) Cafwyd addewid y câi'r eithin ar Lwybr yr Arfordir ger Carreg ei glirio cyn gynted ag y bydd modd.

e) Hysbyswyd Cyngor Gwynedd fod rhwystr ar y llwybr heibio i Tŷ Tan Fron, a chafwyd addewid y byddai'n cael sylw.

*ii. Materion yr Eglwys Newydd*

Mae Gallaghers, y cwmni sydd i ymgymryd â'r gwaith atgyweirio, bellach wedi cael cwmni i osod sgaffaldiau (tu allan a thu mewn). Y gobaith oedd y byddai'r gwaith yn dechrau o fewn y mis. Oherwydd y rheidrwydd o gael sgaffald mawr tu mewn i'r adeilad, bydd cynnydd i'r gost a amcangyfrifwyd.

*iii. Y Fynwent*

Bu'r Cadeirydd a'r Cynghorydd Nesta Roberts yn delio â materion yn codi ynghylch y Fynwent. Nodwyd fod angen archwiliad o'r Fynwent ac ystyried beth i'w wneud â'r ddwy fainc yno.

*iv. Swydd y clerc*

Er hysbysebu'r swydd eto, ar y we ac ar wefan Cyngor Gwynedd, ni chafwyd ymgeiswyr, ac addawodd y Cynghorydd Gareth Williams holi a fedr Cyngor Gwynedd wneud unrhyw beth.

**5) Gohebiaethau**

a) Y mae'r Cyngor yn dal i dderbyn gohebiaeth ynghylch y postyn a osodwyd o flaen Bodarfor, er mai mater i'r Cyngor Gwynedd yw hwn. Penderfynwyd gyrru at y gohebwyr i'w hysbysu na fydd y pwnc yn cael ei drafod gan y Cyngor Cymuned eto.

b) Rhannwyd gohebiaeth o flaen y cyfarfod ynghylch y materion isod, ond ni fu trafodaeth arnynt: Apêl yr Urdd i roi cyfle i blant fynd i Wersyll Haf; Sesiwn ar-lein Gwylio Cyflymder Cymunedol; Arolwg Argyfwng Costau Byw 2023 – Gweithgarwch Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru; Hyfforddiant Cynghorwyr Ionawr – Mawrth 2024; Gweminar ar deithiau hunan-dywys rhyngweithiol ar gyfer pentrefi, trefi a chymunedau.

**6) Cynllunio**

C23/1008/30/LL - Y Sied Ddu, Ger Melin Daron, Aberdaron, Pwllheli, LL53 8BE. Dim gwrthwynebiad, cyn belled â bod uchdwr yr adeilad yn briodol, ei bod yn eglur os oes unrhyw fannau parcio nad ydynt yn rhan o'r datblygiad, a bod Swyddog Cadwraeth Cyngor Gwynedd o'r farn ei fod yn gweddu â chymeriad y pentref.

**7) Ariannol**

Trafodwyd Praesept 2024/25, ac yn sgil cynnydd prisiau yn gyffredinol, cytunwyd i'w godi o 10%.

***Taliadau***

Nesta Roberts: £12.56 (CCTV trwy S/O Rhagfyr)
Ffioedd banc HSBC: £5.40

***Derbyniadau***

Cynnal a Chadw Cyngor Gwynedd Llwybrau £681.50
Scottish Power £45.66

**8) Materion ffyrdd a llwybrau**

Gofynnwyd i swyddogion Cyngor Gwynedd fwrw golwg ar gyflwr y ffordd fawr rhwng Aberdaron a'r Rhiw ger Morfa Mawr, ac eto ger y tro am Bryn.
Adroddwyd fod twll yn y ffordd rhwng Rhiwlas a Salfur.

**9) Materion eraill**

Adroddodd y Cynghorydd Emlyn Jones fod padiau diffibrilwyr Rhoshirwaun ac Uwchmynydd wedi darfod eu bryd a bod angen rhai newydd yn eu lle. Roedd wedi cymharu prisiau ac am archebu rhai newydd.

Mynegwyd pryder ynghylch y gostyngiad sylweddol sydd wedi bod yn y gwelyâu ar gael i gleifion yn Ysbyty Gwynedd, a gofynnwyd i'r Cyngor gyfleu hynny i'r Aelod Cynulliad.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ar nos Lun, 12fed o Chwefror, 2024 yn Neuadd Rhoshirwaun.**